

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Yr hyn y gall ac na all ymgyrchwyr Refferendwm yr UE ei wneud wrth ymgyrchu

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth allweddol am yr hyn y gall ymgyrchwyr refferendwm ei wneud a'r hyn na allant ei wneud wrth ymgyrchu yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE

Cynnwys:

Yr hyn y gall ac na all ymgyrchydd ei wneud

Defnyddio'r gofrestr a rhestrau o bleidleiswyr

Buddiannau ychwanegol ymgyrchwyr arweiniol

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

2

Yr hyn y gall ac na all ymgyrchwyr Refferendwm yr UE ei wneud wrth ymgyrchu

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Gwybodaeth allweddol am yr hyn y gall ymgyrchwyr Refferendwm ei wneud a'r hyn na allant ei wneud wrth ymgyrchu yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r canlynol:

- Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud yn ystod y cyfnod ymgyrchu
- Defnyddio'r gofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol
- Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus
- Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud ar y diwrnod pleidleisio
- Troseddau etholiadol

Dogfennau cysylltiedig:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

- Asiantiaid yn Refferendwm yr UE
-

4

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn eich tywys drwy wybodaeth allweddol am yr hyn y gall ymgyrchwyr Refferendwm ei wneud a'r hyn na allant ei wneud wrth ymgyrchu yn y refferendwm.

Mae hefyd yn nodi'r hawliau y mae gan bob ymgyrchydd cofrestredig yr hawl i'w cael i'w helpu i ymgyrchu, yn ogystal â'r rhai a roddir i'r ymgyrchwyr arweiniol dynodedig yn unig.

Ymgyrchwyr yn Refferendwm yr UE

1.1 Rydym yn annog cyfranogiad gweithredol gan ymgyrchwyr fel rhan o ddemocratiaeth iach. Yn ystod y refferendwm, gall unrhyw un, unigolion neu sefydliadau, ymgyrchu dros ganlyniad penodol ar yr amod nad ydynt yn gwario mwy na £10,000 yn ystod cyfnod y refferendwm.

1.2 Rhaid i unrhyw un sy'n gwario mwy na'r swm hwn gofrestru â'r Comisiwn fel cyfranogwr a ganiateir oni bai ei fod yn gweithio gyda sefydliad dynodedig (gweler paragraff **1.6** isod). Drwy gydol y canllawiau hyn rydym yn cyfeirio at gyfranogwyr a ganiateir fel 'ymgyrchwyr cofrestredig'.

1.3 Gallwch ddysgu mwy am gofrestru fel ymgyrchydd ar gyfer y refferendwm yn ein canllawiau [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#).

1.4 Er mwyn eu helpu i ymgyrchu, mae gan bob ymgyrchydd cofrestredig yn y refferendwm yr hawl i gael copi am ddim o'r cofrestrau etholiadol llawn a'r rhestrau pleidleiswyr absennol sy'n dangos yr etholwyr hynny sydd wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd o'r gofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol gweler paragraffau **1.7** i **1.17**.

1.5 Mae gan ymgyrchwyr cofrestredig yr hawl hefyd i benodi asiantiaid refferendwm. Gall pob ymgyrchydd refferendwm benodi un asiant refferendwm ar gyfer pob ardal bleidleisio a all, yn ei dro, benodi asiantiaid eraill i arsylwi ar y broses o agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r cyfrif. Yr 'unigolyn cyfrifol' ar ran yr ymgyrchydd, neu berson a awdurdodwyd yn ysgrifenedig ganddo, sy'n gallu penodi'r asiant refferendwm drwy gyflwyno hysbysiad o'u penodiad i'r Swyddog Cyfrif perthnasol erbyn **12 hanner dydd ar 31 Mai** fan bellaf. Ceir rhagor o wybodaeth am benodi asiantiaid yn ein dogfen [Asiantiaid yn Refferendwm yr UE](#).

1.6 Mae gan grwpiau ymgyrchu arweiniol fuddiannau penodol sy'n ychwanegol at y rhai a roddir i ymgyrchwyr cofrestredig

6

eraill. Penodwyd 'The In Campaign Ltd' a 'Vote Leave Ltd' gan y Comisiwn yn ymgyrchwyr arweiniol ar gyfer canlyniad ymgyrchoedd "Aros" a "Gadael" yn y drefn honno. Fel y cyfryw, bydd hawl ganddynt i ddefnyddio ystafelloedd a ariennir gan y cyhoedd ac ysgolion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus (gweler paragraffau **1.18** i **1.23**) ac anfon un neges at bleidleiswyr am ddim (gweler paragraffau **1.24** a **1.25** isod.)

Yn ystod yr ymgyrch, cewch...

- Annog pobl nad ydynt ar y gofrestr etholiadol i wneud cais i gofrestru. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio mewn da bryd ar gyfer y refferendwm yw **7 Mehefin 2016**.

Ym Mhrydain Fawr, gall unigolion gofrestru ar-lein bellach yn <http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio>.

Bydd angen i unigolion sy'n byw yng **Ngogledd Iwerddon** gofrestru gan ddefnyddio ffurflen bapur. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan [Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon](#).

Gall unigolion sy'n byw yn **Gibraltar** gofrestru drwy ddefnyddio ffurflen a gyhoeddir gan Swyddog Cofrestru Etholiadol Ewrop ar gyfer Gibraltar ac sydd ar gael ar [wefan Senedd Gibraltar](#).

Ceir rhagor o wybodaeth am bwy a all gofrestru i bleidleisio yn y refferendwm yn www.fymhleidlaisi.co.uk.

- Helpu pleidleiswyr gyda gwybodaeth am bleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy - rhoddir gwybodaeth yn www.fymhleidlaisi.co.uk.

Ym Mhrydain Fawr, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost ar gyfer y refferendwm yw **5pm ar 8 Mehefin 2016**. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer y refferendwm yw **5pm ar 15 Mehefin 2016** er, o dan rai amgylchiadau, caiff etholwyr wneud cais brys am bleidlais drwy ddirprwy hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Caiff etholwr wneud cais brys am bleidlais drwy ddirprwy os

yw, ar ôl 5pm ar 15 Mehefin 2016, wedi cael argyfwng meddygol neu wedi cael ei alw i ffwrdd ar fusnes.

Yng Ngogledd Iwerddon, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost neu drwy ddiprwy ar gyfer y refferendwm yw **5pm ar 3 Mehefin 2016**. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ar sail iechyd, neu gyflogaeth fel cwnstabl neu gan y Swyddog Cyfrif yw **5pm ar 15 Mehefin 2016**.

Yn Gibraltar, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost ar gyfer y refferendwm yw **5pm ar 8 Mehefin 2016**. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer y refferendwm yw **5pm ar 15 Mehefin 2016**.

Yn ystod yr ymgyrch, dylech...

- Os ydych yn dewis annog eich cefnogwyr i wneud cais am bleidlais bost ym Mhrydain Fawr, defnyddiwch ffurflenni'r Comisiwn, sydd ar gael yn www.fymhleidlaisi.co.uk. Yng Ngogledd Iwerddon, mae ffurflenni ar gael ar wefan Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon. Yn Gibraltar, gellir lawrlwytho ffurflenni o [wefan Senedd Gibraltar](#).
- Os byddwch yn llunio eich ffurflenni cais pleidlais absennol eich hun, sicrhewch eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, neu caiff y ceisiadau eu gwrthod. Yn arbennig, rhaid i chi sicrhau bod y meysydd llofnod a dyddiad geni ar ffurflenni cais pleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy yn y fformat cywir. Ym Mhrydain Fawr, dylech ddefnyddio ein ffurflenni cais pleidlais absennol yn www.fymhleidlaisi.co.uk fel canllaw. Yng Ngogledd Iwerddon, ewch i wefan [Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon](#) i gael rhagor o wybodaeth. Yn Gibraltar, ewch i wefan [Senedd Gibraltar](#) i gael rhagor o wybodaeth. Dylech ystyried cysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer yr ardal bleidleisio/ardaloedd pleidleisio rydych yn ymgyrchu ynddi/ynddynt a all roi ffurflenni i chi eu defnyddio efallai.

8

- Dilynwch y [Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr](#) – bydd hwn yn eich helpu i osgoi sefyllfaoedd lle y gellid amau eich gonestrwydd neu uniondeb neu onestrwydd neu uniondeb eich cefnogwyr. Mae'r Cod yn nodi'r hyn sy'n ymddygiad derbyniol a'r hyn nad yw'n ymddygiad derbyniol yn y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio ac mewn gorsafoddd pleidleisio, a dylech sicrhau bod eich cefnogwyr yn ei ddilyn. Mae'r safonau ymddygiad a nodir yn y Cod hefyd yn gymwys i'r etholiadau a drefnwyd ar gyfer 5 Mai ac unrhyw is-etholiadau cyn y refferendwm.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cefnogwyr yn gwrtais wrth ddelio ag ymgyrchwyr ar gyfer canlyniad gwahanol i'r refferendwm.
- Os ydych yn ymgyrchydd cofrestredig, byddwch yn ymwybodol o'r dyddiad cau ar gyfer penodi asiant etholiadol (**hanner dydd ar 31 Mai**), ac i asiantiaid fod yn bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoddd pleidleisio a'r cyfrif. Gweler hefyd [Asiantiaid yn Refferendwm yr UE](#).
- Os ydych yn asiant, darllenwch ein canllawiau ar agor pleidleisiau post, y broses bleidleisio a'r cyfrif fel eich bod yn gwybod beth y gallwch ei ddisgwyl a phryd (gweler ein canllawiau [Mynychu gweithrediadau allweddol Refferendwm yr UE](#)).

Yn ystod yr ymgyrch, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn:

- Talu canfaswyr. Ystyr canfasio yw ceisio darbwyllio etholwr i bleidleisio dros ganlyniad penodol yn y refferendwm.

Ceir rhagor o wybodaeth am droseddau a sut i roi gwybod amdanynt yn yr atodiad ar ddiwedd y ddogfen hon

Gall ymgyrchwyr, sydd wedi gwneud camgymeriad ac wedi torri'r rheolau, wneud cais am ryddhad rhag canlyniadau gwneud camgymeriad. Gweler yr atodiad am ragor o wybodaeth.

Nid ydym yn rheoleiddio'r troseddau hyn. Dylai unrhyw gwynion gael eu cyfeirio at yr heddlu.

10

Defnyddio'r gofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol

1.7 Mae gan **ymgyrchwyr cofrestredig** hawl i gael copi am ddim o'r cofrestrau etholiadol llawn ac mae ganddynt hawl hefyd i weld y rhestrau o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ('rhestrau o bleidleiswyr absennol').

Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y gofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol

1.8 Mae'r gofrestr etholiadol llawn a rhestrau o bleidleiswyr absennol yn cynnwys data personol pobl ac felly rheolir eu defnydd yn ofalus iawn.

1.9 Gall ymgyrchwyr cofrestredig eu defnyddio i:

- helpu eu hymgyrch
- cadarnhau bod rhoddion a benthychiadau gan unigolion yn rhai a ganiateir

1.10 Rhaid sicrhau nad yw ymgyrchwyr cofrestredig yn rhoi unrhyw fanylion, sydd ond yn ymddangos ar y gofrestr llawn ac nid ar y gofrestr agored sydd ar werth yn gyffredinol, i unrhyw un. Rhaid sicrhau nad ydynt yn:

- defnyddio'r gofrestr llawn na'r rhestrau o bleidleiswyr absennol at unrhyw ddiben arall nas rhestrir uchod, neu
- rhoi copiâu i rywun y tu allan i'r ymgyrch (ar wahân i gwmnïau prosesu data penodol).

1.11 Os bydd ymgyrchwyr cofrestredig wedi rhoi copi o'r gofrestr neu restrau o bleidleiswyr absennol i weithwyr ymgyrch, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r gofynion uchod.

Gallai unrhyw un sy'n torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholiadol wynebu dirwy a/neu hyd at flwyddyn yn y carchar.

Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol

1.12 Gellir cael copïau o'r gofrestr a rhestrau o bleidleiswyr absennol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol.

1.13 Mewn perthynas â Chymru, Lloegr a'r Alban, mae manylion cyswllt ar gael yn www.fymhleidlaisi.co.uk. Dylai ceisiadau am gofrestrau a cheisiadau am restrau o bleidleiswyr absennol mewn perthynas â Gibraltar gael eu gwneud drwy Swyddog Cofrestru Etholiadol Bwrdeistref Poole.

1.14 Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, mae manylion cyswllt ar gael yn www.eoni.org.uk/Utility/Contact-Us. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi penodi asiant refferendwm yng Ngogledd Iwerddon wrth wneud y cais, gan mai dim ond i'r asiant y caiff rhestrau o bleidleiswyr absennol eu rhoi.

1.15 Rhaid i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig ac rydym wedi darparu [ffurflen gais cofrestru](#) a [ffurflen gais rhestrau o bleidleiswyr absennol](#) at y diben hwn ar ein gwefan.

1.16 Darperir y gofrestr a'r rhestrau ar ffurf electronig oni fydd cais penodol am gopi papur.

1.17 Bydd y cofrestrau a'r rhestrau a ddarperir yn rhai cyfredol ar adeg gwneud y cais, er y gall y cais hefyd gynnwys cais am ddiweddariadau i'r cofrestrau a'r rhestrau a gyhoeddir yn y cyfnod cyn yr etholiad, gan gynnwys y rhestr o etholwyr sydd newydd gofrestru pan gaiff ei chyhoeddi ar 15 Mehefin 2016.

Buddiannau ychwanegol ymgyrchwyr arweiniol

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

1.18 Efallai y byddwch am ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan hyrwyddo eich syniadau ac ateb cwestiynau gan y gynulleidfa.

12

1.19 Ym Mhrydain Fawr, mae gan unigolion a awdurdodir gan **ymgyrchydd arweiniol** yr hawl i ddefnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus penodol am ddim ar adegau rhesymol yn ystod y 28 diwrnod calendr cyn y refferendwm. Yng Ngogledd Iwerddon a Gibraltar, nid oes darpariaeth i ddefnyddio ysgolion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, yng Ngogledd Iwerddon a Gibraltar, mae gan unigolyn a awdurdodir gan ymgyrchydd arweiniol yr hawl i ddefnyddio ystafell gyfarfod yr ariennir y gwaith o'i chynnal a'i chadw yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy arian cyhoeddus.

1.20 Mae Swyddog Cofrestru Etholiadol pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, a phob swyddog priodol yn yr Alban yn cadw rhestr o leoliad ac argaeledd ystafelloedd cyfarfod yn ei ardal. Byddant yn sicrhau bod y rhestr hon ar gael i'w harchwilio gan unigolion a awdurdodir gan ymgyrchydd arweiniol. Ceir manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn www.fymheidlaisi.co.uk. Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â [Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon](#). Yn Gibraltar, cysylltwch â Chlerc [Senedd Gibraltar](#) i gael rhagor o wybodaeth.

1.21 Dylai unigolion a awdurdodir gan ymgyrchydd arweiniol i ddefnyddio ystafelloedd o'r fath, gysylltu â pherchennog y safle i drefnu ystafell, gan roi rhybudd rhesymol er mwyn osgoi'r risg o wrthod y cais.

1.22 Ni chodir tâl am ddefnyddio'r ystafelloedd hyn, ond rhaid talu am unrhyw gostau yr eir iddynt, megis gwres, golau a glanhau, ac am unrhyw ddifrod i'r safle.

1.23 Nid yw'r hawl i ddefnyddio ystafelloedd yn cynnwys yr oriau y defnyddir ysgol at ddibenion addysgol. Yn yr un modd, rhaid rhoi blaenoriaeth i unrhyw achos lle roedd ystafell gyfarfod wedi'i llogi ymlaen llaw.

Rhadbost

1.24 Mae gan ymgyrchwyr arweiniol yr hawl i gludiant am ddim ar ohebiaeth refferendwm i etholwyr yn y refferendwm. Rhaid sicrhau mai dim ond materion yn ymwneud â'r refferendwm a geir yn yr ohebiaeth.

1.25 Cewch gludiant am ddim ar naill ai:

- un cyfathebriad refferendwm heb gyfeiriad hyd at 60 gram i bob cyfeiriad post, neu
- un cyfathebriad refferendwm hyd at 60 gram wedi ei gyfeirio at bob etholwr yn y refferendwm.

1.1 Os ydych yn ystyried ymarfer yr hawl hon, dylech gysylltu â'r [Post Brenhinol](#) i wneud trefniadau. Rhaid cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Post Brenhinol.

Yr hyn y gellir ei wneud ac na ellir ei wneud o ran cyhoeddusrwydd wrth ymgyrchu

1.26 Rhaid i chi:

- Ddefnyddio argraffnodau ar eich holl ddeunydd ymgyrch print ac unrhyw ddeunydd ymgyrch electronig a gynllunnir i'w argraffu'n lleol. Ceir canllawiau manwl ar argraffnodau yn [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#).
- Cydymffurfio â rheolau cynllunio sy'n ymwneud â byrddau hysbysebu a baneri mawr - dylech ofyn i'r awdurdod lleol perthnasol am gyngor.
- Gwnewch yn siŵr bod posteri allanol yn cael eu symud yn gyflym ar ôl y refferendwm (yn Lloegr, rhaid gwneud hyn o fewn 14 diwrnod calendr i'r refferendwm) - dylech gysylltu â'r awdurdod lleol neu'r cyngor perthnasol i weld beth yw eu polisi ar bosteri allanol.

1.27 Dylech:

- Gynnwys argraffnod ar unrhyw ddeunydd ymgyrch nas argreffir, gan gynnwys gwefannau.
- Ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd isel, neu os nad Cymraeg neu Saesneg yw

eu hiaith gyntaf. Efallai y byddwch am gysylltu â grwpiau anabledd i gael cyngor.

1.28 Rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol:

- Cynhyrchu deunydd sy'n edrych fel y cardiau pleidleisio a anfonir at bleidleiswyr.
- Talu pobl i arddangos eich hysbysebion (oni fyddant yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol).

Yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud ar y diwrnod pleidleisio

Gwirfoddolwyr sy'n sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi nifer yr etholwyr sydd wedi pleidleisio yw rhifwyr.

Dylech:

- Sicrhau bod unrhyw rifwyr sy'n gweithio i chi yn dilyn ein **canllawiau i rifwyr** ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Cyfrif neu'r Swyddog Cyfrif.
- Dilyn y **Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr**, sy'n nodi'r hyn a gaiff a'r hyn na chaiff ei ystyried yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned a gwneud yn siŵr bod gweithwyr yr ymgyrch yn ymwybodol o'r cod. Mae'r Cod yn nodi'n glir y dylai fod hawl gan ymgyrchwyr i gyflwyno eu negeseuon i bleidleiswyr ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys mewn manau cyhoeddus y tu allan i fannau pleidleisio. Fodd bynnag, dylech sicrhau bod eich dull gweithredu yn gymesur a dylech gydnabod y gall grwpiau o gefnogwyr godi ofn ar bleidleiswyr. Ym mhob achos, dylai ymgyrchwyr gadw'r mynediad i fannau pleidleisio a'r palmantau o gwmpas manau pleidleisio yn glir fel y gall pleidleiswyr fynd i mewn iddynt.
- Sicrhau bod unrhyw asiantiaid sy'n bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio, sesiynau agor pleidleisiau post neu'r cyfrif yn deall y rheolau ynghylch cyfrinachedd y bleidlais. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein dogfennau sy'n nodi'r gofynion cyfrinachedd ar gyfer **y bleidlais, pleidleisiau post** a'r **cyfrif**. Ar gyfer Cymru, rydym wedi llunio'r gofynion cyfrinachedd ar gyfer **y**

bleidlais, pleidleisiau post a'r cyfrif yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

- Cydymffurfio â cheisiadau gan staff gorsafoedd pleidleisio a'r Swyddogion Cyfrif ynghylch ymgyrchu ger gorsafoedd pleidleisio.

Rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol:

- Ymgyrchu ger manau pleidleisio mewn ffordd a allai gael ei hystyried yn ymosodol gan bleidleiswyr neu a allai godi ofn arnynt (er enghraifft, grwpiau mawr o gefnogwyr yn cario baneri, neu gerbydau ag uchelseinyddion neu â deunydd ymgyrch drostynt i gyd). Fodd bynnag, dylai fod hawl gennych i gyflwyno eich negeseuon i bleidleiswyr ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys mewn manau cyhoeddus y tu allan i fannau pleidleisio.
 - Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais. Mae hyn yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth fodern ac ymdrinnir ag unrhyw fethiant yn ddifrifol. Yn arbennig, rhaid i unigolion sy'n mynychu sesiynau agor pleidleisiau post sicrhau nad ydynt yn ceisio nodi na dangos sut y marciwyd pleidleisiau ar bapurau pleidleisio unigol.
 - Cyn i'r cyfnod pleidleisio orffen, cyhoeddi arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio nac unrhyw ddata eraill yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan bobl am y ffordd y gwnaethant bleidleisio ar ôl iddynt fwrw eu pleidlais, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post.
-

Atodiad

Rhestr o droseddau

1.29 Dylech fod yn ymwybodol o nifer o droseddau etholiadol a throeddau nad ydynt yn rhai etholiadol, a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun lle bo angen.

Llwgrwobrwyo

1.30 Mae'r drosedd o llwgrwobrwyo yn cynnwys, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, roi unrhyw arian neu sicrhau unrhyw swydd ar gyfer unrhyw bleidleisiwr neu ar ei ran, er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

Anrhegu

1.31 Mae unigolyn yn euog o anrhegu os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn rhoi neu'n darparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio. Mae a wnelo anrhegu â bwriad llygredig - nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.

Dylanwad gormodol

1.32 Mae unigolyn yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu'n achosi neu'n bygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn gorfodi neu gymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

1.33 Gall unigolyn hefyd fod yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd yn rhwystro neu'n atal pleidleisiwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio - hyd yn oed os na fydd yn llwyddo.

Nid ydym yn rheoleiddio'r troseddau hyn.

I gael manylion am sut i roi gwybod am unrhyw honiadau o gamymddwyn etholiadol gweler paragraff1.43.

1.34 Nid yw dylanwad gormodol yn ymwneud â mynediad ffisegol i'r orsaf bleidleisio yn unig. Er enghraifft, gallai taflen sy'n bygwth defnyddio grym er mwyn cymell pleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd benodol hefyd fod yn ddylanwad gormodol.

Cambersonadu

1.35 Ystyr cambersonadu yw pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall, naill ai drwy'r post neu'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio, fel etholwr neu ddirprwy. Mae'r drosedd hon yn gymwys p'un a yw'r sawl a gaiff ei gambersonadu yn fyw, yn farw neu'n ffuglennol. Mae hefyd yn drosedd cynorthwyo, annog neu gaffael cambersonadu.

Gwybodaeth gofrestru anwir a chais anwir i bleidleisio drwy'r post/drwy ddirprwy

1.36 Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar ffurflen gais cofrestru, pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth anwir yn cynnwys llofnod ffug.

Cais anwir i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy

1.37 Bydd unigolyn yn euog o drosedd os bydd yn gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy er mwyn cael pleidlais nad oes ganddo'r hawl i'w chael neu er mwyn atal rhywun arall rhag pleidleisio.

Troseddau'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy

1.38 Ceir amryw droseddau o ran aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post fel etholwr neu ddirprwy pan fo anghymwyster cyfreithiol i bleidleisio a chymell neu gaffael rhywun arall i gyflawni trosedd.

Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais

1.39 Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â phroses y refferendwm neu sy'n bresennol mewn rhai digwyddiadau gynnal

18

cyfrinachedd y bleidlais. Bydd y Swyddog Cyfrif yn rhoi copi o'r gofynion swyddogol o ran cyfrinachedd i bawb sy'n bresennol yn y sesiwn agor pleidleisiau post neu gyfrif papurau pleidleisio, ac i asiantiaid pleidleisio.

Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch

1.40 Mae rhai troseddau'n ymwneud yn benodol â deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch refferendwm. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch refferendwm print gynnwys argraffnod a pheidio ag edrych fel cerdyn pleidleisio.

Casineb hiliol

1.41 O dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mae'n drosedd cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd bygythiol, ymosodol neu sarhaus y bwriedir iddo ysgogi casineb hiliol neu sy'n debygol o wneud hynny.

Swyddogion yr heddlu fel canfaswyr

1.42 Ni chaiff aelodau o'r heddlu ganfasio a byddent yn cyflawni trosedd petaent yn gwneud hynny. Ni chaiff aelodau o'r heddlu ddarbwyllio unrhyw un i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

Rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol

1.43 Os byddwch yn poeni bod twyll etholiadol wedi'i gyflawni o bosibl, dylech siarad yn gyntaf â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Cyfrif perthnasol.

1.44 Efallai y bydd yn gallu egluro p'un a gyflawnwyd twyll etholiadol ai peidio, a gall gyfeirio eich pryderon i'r heddlu os oes angen. Gall hefyd roi manylion swyddog cyswllt yr heddlu ar gyfer yr heddlu perthnasol fel y gallwch roi gwybod am yr honiad eich hun.

1.45 Os bydd gennych dystiolaeth o gyflawni trosedd etholiadol, dylech gysylltu â'r heddlu **ar unwaith**, gan ddefnyddio rhif 101 ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys

Nid ydym yn rheoleiddio cynnwys deunydd ymgyrch ac ni allwn wneud unrhyw sylwadau ar gyfreithlondeb unrhyw ddeunydd refferendwm penodol y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y canllawiau hyn .

oni fydd trosedd yn cael ei chyflawni yn y fan a'r lle. Mae gan bob heddlu Swyddog Cyswllt Unigol penodol a fydd yn gallu rhoi cyngor er mwyn sicrhau yr ymchwiler i'ch honiadau'n gywir. Dylech fod yn barod i roi datganiad iddo ac ategu eich honiad.

1.46 Mae manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr ar gael yn www.fymheidlaisi.co.uk. Yng Nghymru a Lloegr, dyma fydd manylion cyswllt Swyddogion Cyfrif hefyd. Yn yr Alban, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cyfrif perthnasol drwy'r swyddfa etholiadau yn y cyngor.

1.47 Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon mae'r manylion cyswllt ar gael yn <http://www.eoni.org.uk/Utility/Contact-Us>.

1.48 Yn Gibraltar, cysylltwch â'r [Clerc i Senedd Gibraltar](#).

1.49 Noder, os bydd eich honiad yn ymwneud â materion cyllid ymgyrchydd, fel gwariant neu roddion, yna dylech ddilyn y cyngor a roddir yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances>.

Beth os ydych wedi gwneud camgymeriad?

1.50 Os byddwch wedi gwneud camgymeriad ac wedi torri rheolau'r refferendwm, gallwch wneud cais am ryddhad rhag cosbau am unrhyw drosedd.

1.51 Dylech bob amser geisio cyngor cyfreithiol os byddwch yn ystyried gwneud cais am ryddhad.

1.52 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhaid gwneud y cais am ryddhad i'r Uchel Lys neu Lys Sirol. Yn yr Alban, rhaid gwneud y cais am ryddhad i'r Siryf neu'r Llys Sesiwn. Yn Gibraltar, rhaid gwneud y cais am ryddhad i lys.